

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2023

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2023. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

18 Ionawr 2023

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2023 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("rheoliadau 2003").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwnaed rheoliadau 2003 o dan adrannau 551 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996.

3.2 Mae Rheoliad 4(1) yn darparu bod pob diwrnod y mae ysgol yn cyfarfod yn cael ei rannu'n ddwy sesiwn a wahanir gan egwyl yng nghanol y dydd oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn peri nad yw hyn yn ddymunol. Mae Rheoliad 4(2) yn darparu bod yn rhaid cynnal o leiaf 380 o sesiynau mewn ysgol yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol (ac eithrio ysgolion meithrin).

3.3 Mae Rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer diwrnodau hyfforddi ychwanegol i ysgolion.

3.4 Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2023 yn diwygio rheoliadau 2003 ac yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Yn dilyn diwygiadau i adran 342 o Ddeddf Addysg 1996, a wnaed gan adran 57 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, nid oes bellach unrhyw ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru. Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o "ysgol" yn rheoliad 3 o reoliadau 2003 i adlewyrchu hyn, drwy ddileu'r cyfeiriad at ysgol arbennig nad yw'n cael ei chynnal gan Awdurdod Lleol. Golyga hyn y bydd rheoliadau 2003 yn berthnasol i ysgolion yng Nghymru sy'n cael eu cynnal gan Awdurdod Lleol.

4.2 Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn lleihau isafswm nifer y sesiynau ysgol y mae'n rhaid eu cynnal ym flwyddyn ysgol 2022—2023 i 376 er mwyn adlewyrchu'r gwyliau banc ychwanegol ar gyfer Angladd Gwladol Ei Mawrhydi'r Frenhines Elizabeth II ac achlysur Coroni Ei Fawrhydi'r Brenin Siarl III.

4.3 Mae Rheoliad 5 o reoliadau 2003 hefyd wedi'i ddiwygio er mwyn caniatáu i ysgolion a gynhelir ddefnyddio dwy sesiwn ysgol (un diwrnod) ym mhob un o'r blynyddoedd ysgol 2022/2023, 2023/2024 a 2024/2025 at ddibenion dysgu proffesiynol mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru, y system anghenion dysgu

ychwanegol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a/neu leihau effaith tloedi ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion (tegwch mewn addysg) ('y blaenoriaethau allweddol'). Bydd hyn yn galluogi ysgolion i ymgysylltu'n briodol â'r materion hyn ac i ymdrin ag anghenion datblygu'r ysgol.

5. Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus am bum wythnos a hanner, rhwng 20 Medi a 28 Hydref 2022, ar y cynnig i wneud darpariaeth ar gyfer diwrnod HMS ychwanegol yn y flwyddyn bresennol ac yn y ddwy flynedd academaidd dilynol at ddiben dysgu proffesiynol mewn perthynas â'r blaenoriaethau allweddol. Gofynnwyd am sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad ar amseru a ffocws y diwrnod HMS ychwanegol arfaethedig. Derbyniwyd 1623 o ymatebion.

5.2 Cafodd yr ymgynghoriad ei dynnu i sylw cynulleidfya eang o randdeiliaid allweddol gan gynnwys penaethiaid, ysgolion, consortia rhanbarthol, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, undebau'r gweithlu addysg, awdurdodau lleol ac Estyn. Yn ogystal, rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol.

5.3 Cafwyd cefnogaeth glir ar gyfer y cynnig gan dros 80% o'r ymatebwyr. Dengys yr ymgynghoriad fod y diwrnod HMS ychwanegol yn cael ei ystyried yn angenrheidiol gan ymarferwyr, undebau'r gweithlu addysg a sefydliadau haen ganol megis awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Roedd tua 80% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid rhoi'r hyblygrwydd i ysgolion benderfynu ynghylch amseriad y diwrnod HMS ychwanegol, ac y dylid mandadu ffocws y dydd fel y cynigiwyd.

5.4 Cododd y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r diwrnod HMS ychwanegol bryderon am yr effaith ar rieni/gofalwyr sydd naill ai'n defnyddio eu gwyliau blynyddol cyfyngedig ar ddiwrnodau HMS neu'n defnyddio gofal plant. Fe wnaeth y rhai sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol nodi'r gost, sy'n fwy o broblem yn sgil yr argyfwng costau byw. Roedd ymatebwyr eraill yn poeni am y dysgu a gollwyd o ganlyniad i'r pandemig, a gwnaed sylwadau am hyd y gwyliau ysgol.

5.5 Mae'r ddogfen ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r ymatebion a gafwyd a gellir ei gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ([yma](#)).

5.6 Mae rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Mae'r asesiad hwn yn asesu costau a manteision yr opsiynau'n ymwneud â newidiadau polisi arfaethedig i Reoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003.

Cefndir

6.1 Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("rheoliadau 2003") yn gwneud darpariaeth ar gyfer hyd y diwrnod ysgol, sydd fel arfer yn cael ei rhannu'n ddwy sesiwn gydag egwyl yng nghanol y dydd, ac i ysgolion gwrdd am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol.

6.2 Gwnaeth Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2019 ddarpariaeth ar gyfer diwrnod HMS ychwanegol ym mhob un o'r tair blynedd academaidd rhwng 2019 a 2022 i alluogi ymarferwyr i gymryd rhan mewn Dysgu Proffesiynol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Roedd y diwrnod ychwanegol hwn yn ategu'r pum diwrnod HMS sy'n rhan o Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).

6.3 Bydd Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2023 yn diwygio rheoliadau 2003 i wneud darpariaeth ar gyfer diwrnod HMS ychwanegol ym mhob un o'r tair blynedd academaidd nesaf (2022 i 2025). Mae'n ofynnol defnyddio'r diwrnod ychwanegol yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer hyfforddiant neu waith paratoi a chynllunio mewn perthynas â lleihau effaith tloedi ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion yr ysgol, y diwygiadau'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol, a/neu'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd yn ategu'r pum diwrnod HMS sy'n rhan o Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).

6.4 Bydd y rheoliadau hefyd yn lleihau nifer y sesiynau gofynnol ar gyfer blwyddyn ysgol 2022 i 2023 er mwyn adlewyrchu'r gwyliau banc ychwanegol ar gyfer Angladd Gwladol y Frenhines Elizabeth II ac achlysur Coroni Ei Fawrhydi'r Brenin Siarl III.

Newidiadau polisi allweddol

6.5 O ran y newidiadau allweddol i bolisiâu sy'n cael eu cynnig, mae'r opsiynau, y cynigion a'r costau a manteision i'w gweld isod.

Opsiynau

6.6 Rydym yn bwriadu darparu amser ychwanegol i gefnogi ymarferwyr a sicrhau eu bod yn gallu manteisio i'r eithaf ar eu Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Nodwyd yr opsiynau canlynol:

1. Busnes fel arfer – byddai hyn yn golygu bod diwrnodau HMS yn parhau i fod yn bump ac ymarferwyr yn parhau i ymgymryd â'u dysgu proffesiynol yn ystod yr amser sydd ar gael ar hyn o bryd.
2. Cymryd camau deddfwriaethol drwy greu un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn am dair blynedd, i'w gymryd o'r 190 diwrnod a ddyrennir fel arfer

i addysgu disgyblion, at ddibenion dysgu proffesiynol i gefnogi'r cwricwlwm newydd a blaenoriaethau eraill.

3. Cymryd camau deddfwriaethol drwy greu un neu fwy o ddiwrnodau HMS ychwanegol y flwyddyn, am fwy na thair blynedd.

6.7 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y pum diwrnod HMS presennol yn rhan o gyflog ac amodau athrawon ac wedi'u cynnwys yn yr adran Oriau Gwaith yn Nogfen statudol Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru). Mae hyn yn golygu bod angen cyflogi athrawon llawnamser am 195 diwrnod y flwyddyn fel arfer - ac ni ddylai mwy na 190 o'r rhain fod yn ddiwrnodau addysgu disgyblion. (Yn 2022 bydd athrawon yn cael eu cyflogi am 193 o ddiwrnodau ac o'r rhain bydd hyd at 188 yn ddiwrnodau addysgu disgyblion.) Yn draddodiadol, mae'r 5 arall wedi bod yn ddiwrnodau HMS. Mae'n ofynnol hefyd i athrawon weithio "unrhyw oriau ychwanegol rhesymol a allai fod yn angenrheidiol i alluogi cyflawni dyletswyddau proffesiynol yr athro yn effeithiol", er mai'r athro/athrawes ei hun sy'n pennu'r oriau hyn.

6.8 Cafodd pwerau yn ymwneud â chyflog ac amodau athrawon eu datganoli yn 2018 a sefydlwyd proses flynyddol newydd i ystyried cyflog ac amodau athrawon yn dilyn hynny. Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud yn benodol â chyflawni ein hamcanion polisi i gefnogi ymarferwyr wrth ddatblygu'r cwricwlwm, diwygio ADY a thegwch mewn addysg. Maent yn adlewyrchu ymateb polisi penodol ar wahân i'r angen i sicrhau bod ymarferwyr yn parhau â'u dysgu proffesiynol a'u bod yn gyfredol, yn hytrach nag ystyried telerau ac amodau ehangach. Rydym hefyd am sicrhau eglurder ynghylch y newid hwn ac unrhyw newidiadau eraill a gyflwynir yn benodol ar gyfer athrawon o dan nawdd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru.

Costau a manteision

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

6.9 Byddai hyn yn golygu bod diwrnodau HMS yn parhau i fod yn bump ac ymarferwyr yn parhau i baratoi yn ystod yr amser sydd ar gael ar hyn o bryd.

Costau

6.10 Dyma'r opsiwn sylfaenol ac felly nid oes unrhyw gostau ariannol ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Bydd ysgolion yn parhau'n agored i ddisgyblion, a bydd angen i ymarferwyr nodi dulliau eraill o gydweithio fel ysgol gyfan ac ar y cyd â phartneriaid.

6.11 Fodd bynnag, mae gan yr opsiwn hwn lefel uchel o risg a chost cyfle. Os na roddir yr amser ychwanegol, y mae ymarferwyr a phenaethiaid wedi dweud yn glir sydd ei angen arnynt, mae risg nad yw ymarferwyr yn gyfredol ac nad ydynt yn cyflawni eu hymrwymadau o dan yr Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Byddai hyn yn effeithio ar weithredu'r cwricwlwm a diwygiadau addysg eraill ac, o ganlyniad, ar y deilliannau i blant a phobl ifanc na fyddant yn elwa'n llawn ar y diwygiadau hyn.

Manteision

6.12 Manteision y dull hwn fyddai rhywfaint o arbedion cost posibl i rieni o gymharu â'r tair blynedd ddiwethaf (2019 i 2022) gan y byddai ysgolion yn cadw at eu pum diwrnod HMS presennol ac na fyddai plant a phobl ifanc yn colli diwrnod o addysgu. Nid yw cadw'r nifer presennol o ddiwrnodau HMS yn cael unrhyw effaith net ar y plant hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) gan fod y plant yn gallu parhau i gael mynediad at eu pryd ysgol am ddim yn ystod holl ddiwrnodau cyfredol y tymor. Mae hyn yn gadarnhaol o ran sicrhau mynediad at bryd iach, maethlon i ddysgwyr a lleihau costau i rieni a fyddai'n gorfod bwydo eu plant gartref fel arall.

6.13 Fodd bynnag, mae'r manteision hyn yn rhai tymor byr iawn, a chredwn fod y cynnydd yn y risg o ran gweithredu'r cwricwlwm a blaenoriaethau addysg eraill yn gwrthbwysu'r manteision hyn.

Opsiwn 2 - Cymryd camau deddfwriaethol drwy greu un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn am dair blynedd, i'w gymryd o'r 190 diwrnod o amser ysgol a ddyrennir i ddisgyblion

Costau

6.14 Ni fyddai'r opsiwn hwn yn greu costau ychwanegol i'r system addysg o ran costau ysgol a chyflogau athrawon a chynorthwyr addysgu, gan y byddai'n digwydd ar ddiwrnod pan fyddai'r ysgolion wedi bod ar agor i'r disgyblion. Efallai y bydd cost fach yn gysylltiedig â sicrhau bod cynorthwyr addysgu yn gallu mynychu diwrnodau HMS ond mae hyn yn anodd ei mesur gan fod telerau ac amodau cyflogaeth yn wahanol yn dibynnu ar ardal yr awdurdod lleol a rôl a chyfrifoldebau swyddi. Mae Llywodraeth Cymru'n buddsoddi bron £37.5 miliwn mewn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr addysg yn ystod 2022 i 2023, er mwyn darparu mynediad at gynnig dysgu proffesiynol eang ac amrywiol.

6.15 Credwn y bydd y brif effaith ar blant a theuluoedd, yn enwedig y rhai ar incwm is. Wrth ystyried yr opsiynau, rydym wedi cymryd i ystyriaeth y cyd-destun economaidd presennol, a'r disgwyliad y bydd costau byw cynyddol a rhewi trothwyon treth incwm yn arwain at ostyngiad yn incwm gwario aelwydydd dros y blynyddoedd nesaf. Mae ein penderfyniad i gyfyngu'r diwrnodau HMS ychwanegol i un yn rhannol o ganlyniad i gynnal yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, oherwydd gallwn liniaru rhywfaint ar yr effaith drwy wneud hyn. Bydd yr effaith ar blant fel grŵp yn un tymor byr gan y bydd pob plentyn a pherson ifanc yn colli diwrnod o ysgol ar y cyd. Fodd bynnag, yn y tymor hir bydd y diwrnod HMS ychwanegol hwn yn galluogi gweithredu'r cwricwlwm newydd a diwygiadau eraill yn llwyddiannus, gan wella safon ac ehangder yr addysg a gânt.


6.16 Bydd yna gost, er yn anodd ei mesur, o ran amser ac arian i deuluoedd sy'n gweithio, lle defnyddir gofal plant neu wyliau blynyddol ar gyfer diwrnod HMS ychwanegol. Er y bydd rhai pobl yn gallu manteisio ar gymorth gan aelodau o'u teulu ar gyfer gofal plant, gwyddom y bydd angen i rieni eraill dalu am y gofal plant ychwanegol hwn. Hynny am un diwrnod ychwanegol am dair blynedd, tan

2025. Mae'r diwrnodau ychwanegol wedi bod yn eu lle ers 2019 er efallai bod y pandemig wedi lleihau'r effaith oherwydd bod mwy o rieni/gofalwyr yn gweithio gartref neu'n gweithio'n hyblyg.

6.17 Mae'r data ar gost gofal plant cofrestredig ac anghofrestredig, yn ystod y tymor ysgol a chyfnodau gwyliau, yn gyfyngedig. Mae adolygiad Llywodraeth Cymru o'r sector gofal plant yng Nghymru (2018) yn rhoi disgrifiad o rai o'r cyfyngiadau hyn gyda ffynonellau data gwahanol (<https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/180110-review-childcare-sector-cy.pdf>).

6.18 Mae Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (SASS) yn arolwg blynyddol sy'n cwmpasu tua 86% o ddarparwyr gofal plant cofrestredig ac mae'n gofyn i'r ymatebwyr am y cyfraddau sy'n cael eu codi am ofal. Fodd bynnag, mae'r ystod o gostau a ddarperir yn fawr iawn, gan ddangos yr amrywiaeth yn y sector a chymhlethdod trefniadau codi tâl. Mae cyfraddau dydd i blant 5-7 oed yn amrywio o £1.00 i £60.00 a cheir gwasgariad rhesymol o ran y lleoliadau sy'n codi'r cyfraddau gwahanol hyn, fel y dangosir yn yr histogram isod:

Ffigur 1: Canran y lleoliadau¹ gofal plant cofrestredig sy'n codi cyfraddau dydd penodol ar gyfer plant 5-7 oed, data SASS Gorffennaf 2021



6.19 Mae data SASS yn awgrymu bod tua 40,000 o blant yng Nghymru o bob oed yn defnyddio rhyw fath o ddarpariaeth gofal plant ar ôl ysgol mewn wythnos arferol. Gellir defnyddio hyn fel mesur procsi ar gyfer nifer y plant yn yr ysgol sydd angen gofal plant ar ddiwrnod arferol yn yr ysgol.

6.20 Gellir casglu gwybodaeth ychwanegol drwy'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant sy'n cael eu cwblhau gan awdurdodau lleol bob pum mlynedd. Nid yw'n ofynnol i ddarparwyr rannu eu cyfraddau ag awdurdodau lleol, ond mae'r Asesiadau Digonolrwydd yn dangos amrywiaeth sylweddol yn y costau rhwng y rhai sydd wedi gwneud hynny. Caiff yr Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant eu

¹ Mae hyn ar draws pob math o leoliad ar gyfer plant 5-7 oed ac mae'n cynnwys gwarchodwyr plant, lleoliadau gofal dydd, darpariaeth y tu allan i'r ysgol a darpariaeth chwarae agored.

llywio hefyd gan arolwg ar raddfa fawr o rieni, ac mae data o arolwg rhieni 2022 yn dangos amrywiaeth sylweddol mewn costau, gan amrywio o £10-£200 yr wythnos. Mae'r ystod hon yn adlewyrchu gwahaniaethau yn yr oriau o ofal plant a ddefnyddir yn ogystal â gwahaniaethau yn y taliadau a godir gan ddarparwyr.

6.21 Dengys asesiad yn 2019 o ymatebion awdurdodau lleol ar gostau darpariaeth adeg gwyliau mai'r gyfradd wythnosol cyfartalog wedi'i phwysoli ar gyfer gofal plant adeg gwyliau yng Nghymru yw £124.85, gyda'r costau'n amrywio o 65% i 139% o gyfartaledd y DU (t.21) https://www.familyandchildcaretrust.org/sites/default/files/Holiday%20Childcare%20Survey%202018_Family%20and%20Childcare%20Trust.pdf).

6.22 Dylid nodi y gallai'r cyflenwad o ddarpariaeth gofal plant gael ei effeithio gan gau ysgolion ar gyfer diwrnodau HMS, gan fod peth o'r ddarpariaeth hon yn digwydd ar safleoedd ysgolion. Mae tua 25% o leoliadau gofal plant cofrestredig wedi cofnodi eu bod wedi'u lleoli ar safle ysgol. Mae tua 34% o'r plant sy'n defnyddio gofal plant mewn lleoliadau cofrestredig yn gwneud hynny mewn lleoliadau sydd ar safleoedd ysgolion.

6.23 Yn ogystal, mae rhieni'n debygol o wynebu anawsterau wrth geisio cael gafael ar ddarpariaeth gofal plant ar fyr rybudd, gyda llawer o ddarparwyr yn strwythuro eu darpariaeth gofal y tu allan i'r ysgol ar sail ymrwymadau tymhorol. Ar adeg cwblhau SASS 2021, nododd lleoliadau fod 1,024 o blant ar restrau aros ar gyfer darpariaeth ar ôl ysgol.

6.24 Mae'r darlun hwn wedi'i gymhlethu fwy gan dystiolaeth sy'n dangos bod y galw am ofal plant y telir amdano'n amrywio'n sylweddol yn ddaearyddol, yn ôl oedran plant, a statws cyflogaeth rhieni (gweler data Arolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru er enghraifft, sy'n dangos amrywiadau). Ar ben hynny, gall fod yn anodd dod o hyd i ofal plant ffurfiol ad hoc a chael mynediad ato. Mae diwrnodau HMS, yn eu hanfod, yn digwydd yn ystod y tymor ac er y gallant ragflaenu neu ddilyn gwyliau ysgol mae'n debygol na fydd y clybiau gwyliau ar agor. Yn ogystal â defnyddio clybiau gwyliau, gall rhieni ddefnyddio clybiau gweithgareddau hefyd fel gofal plant de facto, sy'n ystumio data ar y galw am ofal plant ffurfiol ymhellach.

6.25 Mae'n werth nodi hefyd, yn dibynnu pryd y mae'r diwrnod HMS wedi'i drefnu, y gall effeithio ar ddisbarthiad yr wythnos gyfan (tymor neu wyliau) at ddibenion y Cynnig Gofal Plant. Bydd hyn yn golygu na fydd rhai rhieni yn cael y ddarpariaeth lawn o 48 wythnos y mae ganddynt hawl iddi oni bai y ceir cytundeb Gweinidogol ad hoc i ariannu'r costau ychwanegol.

6.26 Mae'n anoddach lliniaru'r effaith ar deuluoedd incwm is lle mae'r ddau riant/gofalwr yn gweithio, ond mae yna rai camau y gallwn eu cymryd i geisio lleihau'r effaith. Caiff ysgolion eu cynghori i ystyried amseriad y diwrnod yn ofalus er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar rieni, er enghraifft drwy ychwanegu'r diwrnod at wyliau hanner tymor. Yn ogystal, bydd ysgolion yn cael eu cynghori i roi cymaint o rybudd â phosibl i rieni / gofalwyr am ddiwrnodau HMS er mwyn rhoi amser iddynt wneud unrhyw drefniadau angenrheidiol. Fodd bynnag, rydym yn

cydnabod y gallai'r rhybudd a roddir i rieni fod yn gyfyngedig ar gyfer y diwrnod HMS ychwanegol ym mlwyddyn academaidd 2022 i 2023.

6.27 Mae ychwanegu diwrnod HMS ychwanegol yn golygu nad yw plant yn gallu cael pryd ysgol iach a maethlon ar y diwrnod hwnnw. I rai dysgwyr, efallai mai dyma'r unig bryd poeth, cytbwys y maent yn ei gael mewn diwrnod. Mae hefyd yn pasio cost darparu pryd o fwyd yn ôl i'r teulu ar y dyddiau hynny, a fydd yn cael effaith yn enwedig yng nghyd-destun costau byw uwch.

6.28 Mewn ysgolion cynradd mae hefyd yn effeithio ar y dysgwyr hynny a allai fod yn defnyddio darpariaeth brecwast am ddim. Felly, i bob pwrpas, byddem yn cael gwared ar fynediad at ddau bryd o fwyd mewn diwrnod ar gyfer y dysgwr ac yn pasio'r gost yn ôl i rieni.

6.29 Fodd bynnag, mae'r effaith a geir o fethu â chael mynediad at ddarpariaeth bwyd ar 1 o 190 o ddiwrnodau tymor (yn ychwanegol at y 5 diwrnod HMS presennol) yn cael ei orbwyso gan y manteision i addysg y dysgwyr o gyflwyno'r diwrnod HMS ychwanegol.

6.30 O ran yr effaith ar blant, bwriedir i'r cynnig effeithio ar fywydau plant yn gadarnhaol, gan sicrhau bod eu hathrawon a'r rhai sy'n arwain eu hysgolion yn barod ac yn hyderus i gyflawni ein diwygiadau addysg. Mae angen cryfhau'r ymgysylltu ar draws y system er mwyn gweithredu a chodi ymwybyddiaeth o oblygiadau'r Cwricwlwm newydd i Gymru, y diwygiadau ADY a sicrhau tegwch mewn addysg. I'r dysgwyr hynny o gefndiroedd incwm is, byddai caniatáu amser i athrawon gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi a gosod dyheadau uchel i bawb yn cynnig manteision cadarnhaol.

6.31 Drwy ddarparu amser HMS penodol y gall athrawon ac ysgolion eu defnyddio i ymgymryd â'u dysgu proffesiynol, dylem weld deilliannau gwell i'n dysgwyr yn y tymor hir. Mae undebau'r gweithlu addysg hefyd wedi galw am fwy o amser i ymarferwyr ar gyfer dysgu proffesiynol.

6.32 Bydd y defnydd a'r dull gweithredu ar gyfer HMS yn y dyfodol yn cael ei ystyried wrth werthuso'r polisi. Fe wnaeth adolygiad gan Estyn yn 2013 gymryd sampl ar raddfa fach o ddiwrnod HMS mewn ysgolion a chanfod eu bod yn cael eu defnyddio'n dda ar y cyfan mewn ysgolion unigol ond y byddai'n fuddiol pe baent yn fwy thematig a strategol. O ganlyniad i'r pandemig, mae diwrnodau HMS yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi cael eu defnyddio'n bennaf i fynd i'r afael â blaenoriaethau brys, ac nid oedd modd cynnal gwerthusiad llawn o effeithiolrwydd y diwrnodau HMS ychwanegol o 2019. Rydym yn ymwybodol bod diwrnodau HMS yn cael eu defnyddio'n aml ar gyfer hyfforddiant statudol, yn enwedig mewn ysgolion arbennig, ond nad oes goruchwyliaeth gyffredinol o ddiwrnodau HMS gan gynnwys pryd maent yn cael eu cymryd neu sut maent yn effeithio ar ymarferwyr a dysgwyr.

6.33 Felly, rydym yn cydnabod angen mwy o dystiolaeth ar y defnydd o ddiwrnodau HMS a'u heffeithiolrwydd a byddwn yn ystyried gyda'n partneriaid allweddol y ffordd orau o gynnal adolygiad. Cynigir y bydd adolygiad yn cael ei wneud ym mis 2024. Yn y tymor hir, dylai plant elwa ar allu ymarferwyr i gael

mynediad at ddysgu proffesiynol sydd wedi'i gynllunio'n dda ac wedi'i deilwra, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion.

6.34 Yn y tymor byr, bydd plant yn colli tridiau o ysgol dros dair blynedd. Efallai y bydd hyn yn cael effaith negyddol fach ar rai plant gan eu bod yn colli allan ar ddiwrnod o addysgu. Ond gan y bydd yn ddiwrnod a gollir ar y cyd, ni fydd angen 'dal i fyny' fel sy'n arferol yn dilyn absenoldeb. Byddai hyn yn effeithio ar bob plentyn yr un fath ar yr wyneb, gan na fydd yr un ohonynt yn gallu mynychu'r ysgol ar gyfer y sesiynau hynny.

6.35 Fodd bynnag, efallai y bydd plant sy'n byw mewn tlodi neu sy'n dioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gartref yn profi mwy o effaith, er enghraifft drwy golli strwythur y diwrnod ysgol neu brydau ysgol am ddim. Mae'r ymgyrch i wella presenoldeb dros y blynyddoedd diwethaf yn golygu na fydd effaith colli diwrnod o ysgol ar blant ar lefel y boblogaeth yn gyffredinol mor ddifrifol ag y byddai wedi bod pe bai lefelau presenoldeb wedi bod yn is. Gallai rhoi mwy nag un diwrnod y flwyddyn olygu nad yw'r mesurau lliniaru hyn o ran amser dysgu yn gweithio. Mae ystadegau'n dangos mai canran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd yn y blynyddoedd cyn y pandemig oedd 6.9% a 9.0% ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn 2009/10, a bod y rhain wedi gostwng i 5.4% a 6.2% erbyn 2018/19. Cafodd ffigyrau presenoldeb ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) eu cyhoeddi gyntaf yn 2014/15. Y ffigyrau cyfatebol ar gyfer presenoldeb y dysgwyr hyn yn 2018/19 yw 7.9% awr gyfer ysgolion cynradd a 10.5% ar gyfer ysgolion uwchradd (ar gael yma: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Absenteeism>)

6.36 Mae ffigyrau diweddar yn awgrymu bod y lefelau o absenoldeb parhaus yn uwch yn ystod y pandemig. Roedd tua 10% o ddisgyblion yn absennol yn gyson yn ystod y pandemig o gymharu â llai na 3% cyn y pandemig. Mae'r bwlbh yn yr absenoldeb parhaus rhwng disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a rhai nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim wedi cynyddu o oddeutu 6 pwynt canran cyn y pandemig i dros 15 pwynt canran yn 2021/22 (ar gael yma: <https://www.llyw.cymru/crynodeb-o-absenoldeb-yn-yr-ysgol-cyn-ac-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-medi-2014-i-awst-2022-html>).

6.37 Cyn pandemig y coronafeirws (COVID-19), pan oedd disgyblion yn absennol o'r ysgol, roedd yn debygol nad oedd y mwyafrif yn gwneud unrhyw ddysgu ffurfiol. Yn ystod y pandemig, er na fyddai rhai disgyblion wedi gallu cymryd rhan mewn dysgu o bell oherwydd salwch er enghraifft, roedd y mwyafrif o'r disgyblion a oedd yn absennol o'r ysgol yn debygol yn ymgymryd â dysgu o bell. Mae hyn yn wahaniaeth pwysig i'w gofio wrth edrych ar y data ac ystyried beth mae absenoldeb yn ei olygu i addysg a dysgu. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu bron i £4m ar gyfer swyddogion ymgysylltu â theuluoedd er mwyn sefydlu perthnasoedd positif gyda rhieni a rhoi cefnogaeth a gwybodaeth am bresenoldeb da. Gall ysgolion sy'n adnabod eu teuluoedd yn dda sicrhau bod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i helpu plant i gynnal ymgysylltu a phresenoldeb da. Darparodd Llywodraeth Cymru hefyd gyfanswm o £7 miliwn i gefnogi presenoldeb yn ystod 2021 i 2022. Roedd hyn yn cynnwys cymorth penodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddysgwyr ym Mlwyddyn 11 nad

oeddent yn mynychu'r ysgol ac nac oedd yn debygol o gwblhau cymwysterau TGAU. Cyplyswyd hyn â chymorth pontio ar gyfer dysgwyr ym Mlwyddyn 11 i'w cefnogi i symud ymlaen yn hyderus a gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch trosglwyddo i'w camau nesaf, gan dargedu'r dysgwyr hynny â lefelau uchel o absenoldeb.

6.38 Fodd bynnag, er i rai ymatebwyr i ymgynghoriad 2022 leisio pryderon ynghylch y dysgu a gollir ac effaith y pandemig, cytunodd 81.49% o'r ymatebwyr y dylid cael diwrnod HMS ychwanegol.

6.39 Bydd cost weinyddol hefyd, i'w hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru, yn ymwneud â datblygu'r banc o adnoddau digidol dwyieithog. Felly, byddai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â datblygu deunyddiau penodol ar gyfer y diwrnodau HMS yn cael eu talu o gyllidebau presennol Llywodraeth Cymru.

6.40 Fel yr amlygwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae continwwm eang o anghenion mewn ysgolion, o'r rhai sydd newydd ddechrau ystyried diwygio'r cwricwlwm i'r ysgolion hynny sy'n rhan o'r broses o gynllunio'r cwricwlwm. Cafodd y gwahaniaeth yn nhaith ddatblygiadol ysgolion unigol ei amlygu hefyd yn yr ymatebion i ymgynghoriad 2022. Mae angen i'r adnoddau HMS y byddwn yn eu datblygu ddarparu ar gyfer yr amrywiaeth hon ac felly rydym yn rhagweld y bydd amrywiaeth o adnoddau'n cael eu creu. Maent yn debygol o fod yn gyfuniad o adnoddau ar-lein, cynnwys ar-lein rhyngweithiol, a phecynnau o sleidiau neu fideos byr a ddatblygir ar y cyd â'r Consortia Rhanbarthol ac ysgolion.

6.41 Efallai y bydd yna rywffaint o arbedion ar gyfer y system addysg gan nad yw'n ofynnol i staff cymorth fynychu sesiynau HMS (nac yn cael eu talu i wneud hynny fel arfer) yn yr un modd ag athrawon. Fodd bynnag, yn unol â'r egwyddor o degwch yn y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol a'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, byddem yn annog cynnwys staff cymorth yn y diwrnodau HMS ychwanegol hyn.

6.42 Gall hefyd fod gostyngiadau mewn costau teithio o'r cartref i'r ysgol, ond dim ond os yw Awdurdodau Lleol yn cael gwybod am y diwrnod HMS ychwanegol ac yn cael digon o amser i gynllunio ar ei gyfer.

6.43 Bydd y Gweinidog hefyd yn argymhell i ysgolion y dylent ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r pum diwrnod HMS sydd eisoes wedi'u dyrannu iddynt o dan y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon (Cymru) i ymgymryd â'u dysgu proffesiynol.

6.44 Mae'r dull gweithredu hwn yn adlewyrchu'r adborth yn yr ymatebion i ymgynghoriad 2019, lle'r oedd 78% o'r ymatebwyr yn teimlo na fyddai un diwrnod ychwanegol yn ddigonol. Roedd ymatebwyr i ymgynghoriad 2022 hefyd yn awgrymu bod angen diwrnodau HMS ychwanegol ar gyfer datblygu staff a fydd yn hanfodol i gefnogi cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru a blaenoriaethau eraill.

Manteision

6.45 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol gydol gyrfa sydd wedi'i seilio ar ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chydweithio effeithiol. Cefnogir hyn gan fuddsoddiad o bron i £37.5 miliwn er mwyn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr addysg yn ystod 2022 i 2023.

6.46 Er mwyn cyflawni ein hymrwymiad cenedlaethol cyffredin i drawsnewid addysg yng Nghymru, mae'n hanfodol bod ymarferwyr addysg yn cael eu cefnogi yn eu datblygiad gyrfaol a'u dysgu proffesiynol. Ar 30 Medi, cyhoeddwyd y Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol newydd sy'n amlinellu ein disgwyliadau clir o ran yr hyn y dylai pob gweithiwr proffesiynol yng Nghymru fod â hawl iddo. Mae'r hawl yn nodi sut y bydd datblygiad parhaus ymarferwyr yn helpu'r ysgolion neu'r lleoliadau y maent yn gweithio iddynt a'u dysgwyr i wireddu pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, gan gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a gwreiddio tegwch, llesiant a'r Gymraeg ar draws cymuned yr ysgol gyfan.

6.47 Bydd y diwrnod HMS ychwanegol felly'n cyd-fynd â chyflwyno'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn ddiweddar. Er nad oes gennym ddata ar sut y defnyddiwyd y diwrnodau HMS ychwanegol rhwng 2019 a 2022, mae adroddiadau o'r proffesiwn ac undebau'r gweithlu yn awgrymu i'r pandemig effeithio'n negyddol ar eu gallu i ymgysylltu'n effeithiol â'u dysgu proffesiynol. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr a'r undebau wedi dweud bod angen neilltuo mwy o amser.

6.48 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, ar y cyd â'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol a'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, y byddai un diwrnod ychwanegol y flwyddyn rhwng 2022-2025 i ganolbwyntio'n benodol ar ddysgu proffesiynol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm newydd yn darparu cydbwysedd rhwng y cymorth a'r amser ychwanegol i ymarferwyr a faint o amser a gaiff disgyblion yn yr ysgol. Mae'r tair blynedd hyn yn gyfnod allweddol i ysgolion ymgysylltu â'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol a'i gweithredu'n llawn.

Opsiwn 3 – Mabwysiadu dull deddfwriaethol drwy greu mwy nag un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn, am fwy na thair blynedd.

Costau

6.49 Yn debyg i opsiwn 2, ni fyddai'r opsiwn hwn yn creu costau ychwanegol i'r system addysg o ran costau ysgol a chyflogau athrawon a chynorthwywyr addysgu, gan y byddai'n digwydd ar ddiwrnod pan fyddai ysgolion wedi bod ar agor i'r disgyblion.

6.50 Mae llawer o'r un ystyriaethau â'r rhai a nodir uchod yn berthnasol i'r opsiwn hwn, ond i raddau mwy helaeth. Er enghraifft, er y byddai'n rhoi mwy o amser i ymarferwyr, a'i fod felly wedi'i ystyried yn fuddiol yn ymgynghoriadau 2019 a 2022, byddai'r gost i rieni'n cynyddu pe bai mwy nag un diwrnod yn cael ei ddarparu. Dangoswyd hyn yn yr asesiadau effaith. Yng ngoleuni'r cyd-destun economaidd presennol, ac effaith bosibl colli mwy o addysg ar y cyd, teimlwyd na ellid cyfiawnhau'r opsiwn hwn.

6.51 Fodd bynnag, bydd y Gweinidog yn awgrymu i ysgolion eu bod yn defnyddio diwrnodau HMS eraill i gefnogi'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol ymhellach, os nad ydynt eisoes yn gwneud hynny.

Manteision

6.52 Yn debyg i'r uchod, byddai hyn yn helpu gweithwyr addysgu proffesiynol i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Bydd y ffocws hwn ar ddysgu proffesiynol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod pob ymarferydd yn barod i weithredu'r cwricwlwm newydd, y diwygiadau ADY, tegwch mewn addysg a blaenoriaethau cenedlaethol eraill.

Canlyniad

6.53 Ar ôl pwyso a mesur y costau a'r manteision, yr opsiwn a ddewiswyd oedd opsiwn 2, sef defnyddio is-ddeddfwriaeth i ddarparu un diwrnod HMS ychwanegol y flwyddyn am dair blwyddyn academaidd.

Asesiadau effaith

6.54 Yn y tymor byr, efallai y bydd dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn cael eu heffeithio'n negyddol gan y diwrnod HMS ychwanegol oherwydd colli dysgu a chostau ac anawsterau gwneud trefniadau gofal plant. Fodd bynnag, dim ond am un diwrnod o 2022 i 2025 y bydd hyn yn berthnasol. O ganlyniad i'r pandemig, gwelwyd cynnydd mewn gweithio hyblyg neu weithio gartref. Bydd un diwrnod o addysg yn cael ei gollu ac ni fydd gofyn dal i fyny fel sy'n digwydd gydag absenoldeb arferol. Yn ogystal, roedd y diwrnod HMS ychwanegol ar gael rhwng 2019 a 2022 hefyd.

6.55 Yn y tymor hir, bwriad y cynnig yw cael effaith gadarnhaol ar fywydau plant, gan sicrhau bod eu hathrawon a'r rhai sy'n arwain eu hysgolion yn barod ac yn hyderus i gyflwyno ein diwygiadau addysg. Mae angen cryfhau'r ymgysylltu ar draws y system er mwyn gweithredu a chodi ymwybyddiaeth o oblygiadau'r Cwricwlwm newydd i Gymru, y diwygiadau ADY a sicrhau tegwch mewn addysg. Drwy ddarparu amser HMS pwrpasol y gall athrawon ac ysgolion eu defnyddio i ymgymryd â'u dysgu proffesiynol, dylem weld deilliannau gwell i'n dysgwyr yn y tymor hir, gan gynnwys y rhai sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol.

6.56 Mae [Asesiad Effaith Integredig](#) wedi'i gwblhau o'r diwrnod HMS ychwanegol.

7. Asesiad o'r gystadleuaeth

7.1 Ddim yn berthnasol.

8. Adolygiad ar ôl gweithredu

8.1 Mae hwn yn newid deddfwriaethol tymor byr ar gyfer 2022 i 2025 ac felly bydd adolygiad yn cael ei gynnal ar ddiwedd y tair blynedd. Fodd bynnag, bydd

effeithiolrwydd y diwrnod HMS yn cael ei werthuso yn dilyn y flwyddyn gyntaf er mwyn sicrhau ei fod yn ychwanegu gwerth.